Cyngor Cymuned Ganllwyd

Mehefin 8fed 2022

Presennol

Cyng. S.Roberts,S.P.Jones,Gavin Jones,C.Dixon,D.Morris,C.Edwards a Delyth Griffiths.

Ymddiheuriadau:

Cyng G.Hughes

Cofnodion Mai 2022.

Cynnigodd C.Dixon fod y cofnodion yn gywir a eiliwyd gan Cyng S.Roberts.

Datgan diddordeb mewn unrhyw fater a drafodir yn ystod y cyfarfod.

Dim.

Materion yn codi.

Ffordd Cefndeuddwr.

Mae'r cyngor wedi derbyn gwybodaeth gan Cyngor Gwynedd (Mr Iwan Kojs) eu bod yn asesu'r ffordd cyn penderfynu ar faint o waith sydd angen ei wneud.

Arwyddion parcio Beech Road,Hermon.

Mae Mr Ap Trefor, swyddog Cyngor Ganllwyd yn edrych i fewn i'r broblem yma a bydd yn ymateb i'r cyngor cyn y cyfarfod nesaf.

Arwyddion baw ci ardal Ty Cerrig, Ganllwyd.

Mae Mr Peter Simpson o'r cyngor wedi hysbysu'r cyngor y bydd arwyddion yn ymwneud â chael gwared a baw gi yn cael eu gosod yn y lleoliad hwn yn ystod yr wythnos nesaf.

Bydd Cyng Edwards yn monitro'r sefyllfa.

Arrive alive.

Mae swyddogion yr heddlu wedi hysbysu’r y cyngor y byddant yn ymweld â'r safle ger neuadd bentref Ganllwyd 3 gwaith y mis. Byddant yn monitro unrhyw broblemau parcio pan fyddynt yn monitro’r traffic ac yn cynorthwyo modurwyr ar bob achlysur.

Mae'r awdurdod priffyrdd wedi ymweld â'r pentref ac wedi ysgubo cerrig mân a malurion ffyrdd eraill oddi ar balmentydd

Cynghorydd Sir.

Adroddodd y Cyng Griffiths fod Cyngor Gwynedd wedi derbyn £2.9m gan y cynulliad i sefydlu mannau parcio dros nos i ddeiliaid carafanéts a cherbydau tebyg. Bydd cyfnod prawf o 12 mis lle bydd safleoedd cychwynnol yn cael eu cyflwyno yn ardaloedd Tywyn ac Abermaw.

Y gobaith yw y bydd cyflwyno safleoedd o'r fath yn lleihau gwaredu sbwriel a gwastraff yn anghyfreithlon.

Bydd cyngor Gwynedd yn anelu at gael 6 safle o'r fath yng Ngwynedd a Mr Gareth Jones fydd yn arwain y cynllun.

Cynghorwr newydd.

Yn dilyn hysbysiadau a roddwyd ar y wefan ac o fewn y gymuned i lenwi sedd wag fel cynghorydd mae Sarah Pugh-Jones wedi cysylltu â'r cyngor gyda'r bwriad o gael ei chyfethol ar y cyngor. Yn dilyn pleidlais gan y cynghorwyr cafodd Sarah ei chyfethol i'r cyngor.

Cynnal a chadw llwybrau cyhoeddus.

Mae’r cyngor wedi penderfynnu gofyn i Mr Thompson i wneud gwaith ar gynnal a chadw llwybrau troed lleol. Cytunodd y cynghorwyr i gynigion y gyllideb bresennol y dylid gwario hyd at £1150 i hwyluso hyn.

Materion ariannol.

Ffurflen mandate- Mae Cyng Roberts wedi cwblhau gwaith papur banc HSBC a caniateir defnyddio'r llyfr siec gyda llofnodwyr newydd o ddiwedd Mehefin 2022.

Cyllid misol- Mai 2022

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £5012.08 |

Derbyniwyd:

Dim

Taliadau:

| | |
|---|---|
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £11.00 |
| Llogi neuadd Ganllwyd | £315.00 |
| Rhodd neuadd Ganllwyd | £350.00 |
| Rhodd Capel Libanus | £150.00 |

| | |
|---|---|
| Yn y banc diwedd mis | £4086.08 |

Mae aelodau'r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

Rhodd- derbyniodd y cyngor £500 gan Matt Ward dilyn gwaith marshialu yn Coed y Brenin.

Y Wefan- yn dilyn yr awdit fewnol a sylwadau'r archwiliwr bydd y clerc yn diweddaru cynnwys y safle we.

Llythyrau & E-byst.

Cyngor Gwynedd- bydd y cyngor yn torri gwair yn ardal y Ganllwyd ym mis Mehefin.

Unrhyw fater arall.

Cyng Dixon yn adrodd bod coeden wedi disgyn ar draws llwybr troed 76 gan achosi rhwystr i gerddwyr.

Clerc i gysylltu a Cyngor Gwynedd/CNC.

Cyng Edwards yn adrodd for giat ar terfyn yr Ymddiriedolaeth yn ardal “Green Lane”, Ganllwyd mewn cyflwr sal.

Clerc i gysylltu ar Ymddiriedolaeth Genedlaethol.